

Datganiad Prif Gyfrifoldebau

Mae prif gyfrifoldebau Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Glyndŵr wedi'u rhestru yn ei Ddatganiad Prif Gyfrifoldebau. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn gyson ag Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu Prifysgol Glyndŵr.

1. Pennu a chytuno ar weledigaeth, cyfeiriad strategol a gwerthoedd y sefydliad, gan ystyried argymhellion y Tîm Gweithredol.
2. Cytuno ar y cynlluniau busnes ac academaidd tymor hir a dangosyddion perfformiad allweddol a sicrhau fod y rhain yn bodloni buddiannau rhanddeiliad, yn enwedig staff, myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr.
3. Sicrhau fod prosesau'n bodoli i fonitro a gwerthuso perfformiad ac effeithiolrwydd y sefydliad yn erbyn y strategaeth, cynlluniau a dangosyddion perfformiad allweddol a gymeradwywyd a ddylai, lle bo'n bosibl ac yn briodol, gael eu meincnodi yn erbyn sefydliadau eraill a sefydliadau cymharol.
4. Dirprwyo awdurdod i'r Is-Ganghellor o ran rheolaeth academaidd, corfforaethol, ariannol, ystadau ac adnoddau dynol y sefydliad, a sefydlu ac adolygu'n rheolaidd y polisiau, gweithdrefnau a therfynau y cyflawnir swyddogaethau rheolaeth o'r fath gan a dan awdurdod yr Is-Ganghellor.
5. Sicrhau sefydlu a monitro systemau rheoli ac atebolrwydd, yn cynnwys rheolaethau ariannol a gweithredol, asesu risg, trefniadau gwerth am arian a gweithdrefnau trin cwynion cyflogaeth mewnol a rheoli gwthdaro buddiannau.
6. Sefydlu prosesau i fonitro a gwerthuso perfformiad ac effeithiolrwydd y corff llywodraethu ei hun.
7. Cynnal busnes yn unol ag arfer orau mewn llywodraethu corfforaethol Addysg Uwch ac egwyddorion bywyd cyhoeddus a luniwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus.
8. Diogelu enw da a gwerthoedd y sefydliad.
9. Penodi'r IsGanghellor fel Prif Weithredwr a sefydlu trefniadau addas ar gyfer monitro ei berfformiad.
10. Penodi Ysgrifennydd y corff llywodraethu a sicrhau, os oes gan yr unigolyn a benodwyd gyfrifoldebau rheoli yn y sefydliad, fod gwahanu priodol yn y llinellau atebolrwydd.
11. Bod yr awdurdod cyflogi i holl staff y sefydliad a bod yn atebol am sicrhau y sefydliad strategaeth adnoddau dynol briodol.
12. Bod y prif awdurdod ariannol a busnes y sefydliad i sicrhau y cedwir cyfrifonau datganiadau arian nol cywir, a meddu ar atebolrwydd cyffredinol am asedau, eiddo ac ystad y sefydliad.
13. Bod yn awdurdod cyfreithiol y sefydliad ac, yn rhinwedd hynny, sicrhau fod systemau'n bodoli ar gyfer bodloni ymrwymadau cyfreithiol y sefydliad, yn cynnwys y rhai hynny'n deillio o gontractau ac ymrwymadau cyfreithiol eraill a wnaed yn enw'r sefydliad. Mae hyn yn cyn

nwys atebolrwydd am iechyd, diogelwch a diogeledd ac am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

14. Derbyn sicrwydd y gwnaed darpariaeth ddigonol ar gyfer lles cyffredinol y myfyrwyr.
15. Gweithredu fel ymddiriedolwr ar gyfer unrhyw eiddo, cymynrodd, gwaddol, etifeddiaeth neu rodd i gefnogi gwaith a lles y sefydliad.
16. Sicrhau y dilynir cyfansoddiad y sefydliad bob amser, a bod cyngor priodol ar gael i ialluogi hyn.
17. Hyrwyddo diwylliant sy'n cefnogi cynhwysiant ac amrywiaeth ar draws y sefydliad.
18. Cynnal a diogelu egwyddorion rhyddid academiaidd a deddfwriaeth rhyddid i lefaru.
19. Sicrhau fod yr holl staff a myfyrwyr yn cael cyfleoedd i ymgysylltu gyda llywodraethu a rheoli'r sefydliad.
20. Sicrhau fod trefniadau'n bodoli ar gyfer llywodraethu academiaidd effeithol ac ansawdd a safonau rhaglenni addysgol.
21. Bod yn gyfrifol am benodi, aseinio, graddion, atal, diswyddo a phenderfynu ar gyflog ac amodau'r Is-Ganghellor, Clerc y Bwrdd Llywodraethwyr a deilaid uwch swyddi a benderfynir gan y Bwrdd yn dilyn y mgynhori, lle bo'n briodol, gyda'r Is-Ganghellor.
22. Cymryd camau sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau fod yr Undeb Myfyrwyr yn gweithredu mewn modd teg a democrataidd a'i bod yn atebol am ei chyllid.

Wedi'i gymeradwyo 5/3/21

Unigolion allweddol Medi 2021

Cadeirydd y Bwrdd	Ms Maxine Penlington
Is-Gadeirydd	Mr Paul Barlow
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Datblygu Strategol	Ms Judy Owen
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio	Mr Paul McGrady
Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol	Yr Athro Sandra Jowett
Cadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau	Ms Maxine Penlington
Cadeirydd y Pwyllgor Cyflogi	Yr Athro Sandra Jowett